Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# GEM UK: Adroddiad Cymru 2010

Mark Hart a Jonathan Levie

# GEM UK: Adroddiad Cymru 2010

Mark Hart a Jonathan Levie

Prosiect rhyngwladol yw'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-Eang ac fe'i cynhaliwyd mewn 59 o wledydd yn 2010. Ei nod yw cynnig gwybodaeth am y patrwm entrepreneuraidd mewn gwahanol wledydd. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn bwysig o ran creu twf economaidd, cystadleurwydd a swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data'r GEM fel meincnodau allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maint y sampl yng Nghymru oedd 2,995 o oedolion dros 15 mlwydd oed yn 2010 o ganlyniad i gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru (LlC).

# Y Prif Ganfyddiadau

- **Wrth i economi Cymru barhau i chwilio'i ffordd allan o'r dirwasgiad yn 2010, lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd (TEA) cyfnod cynnar yng Nghymru oedd 5.8 y cant – yn debyg i'r 6 y cant yr adroddwyd amdano 12 mis ynghynt. Roedd y gyfradd TEA i'r DU drwyddi draw yn 2010 yn 6.5 y cant a oedd yn uwch na 12 mis ynghynt (5.8%) – dim cynnydd arwyddocaol.**

- **O ystyried gwledydd cartref y DU, nid yw'r gyfradd TEA yng Nghymru gymaint â hynny'n wahanol i'r hyn a welwyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

- **Disgynnodd entrepreneuriaeth fenywaidd yng Nghymru ychydig yn 2010 (3.6%) ac mae'r gymhareb merched i ddynion wedi ehangu 15 pwynt canran erbyn hyn o 58 y cant yn 2009 i 43 y cant yn 2010.**

- **Un o nodweddion mwyaf trawiadol y tueddiad mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru yw bod lefel entrepreneuriaeth ieuenctid wedi dyblu rhwng 2002 a 2010. Ceir tystiolaeth o arolwg GEM sy'n awgrymu'n gryf fod hyn yn gysylltiedig â'r agwedd a gymerwyd tuag at Entrepreneuriaeth Ieuenctid gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf.**

- **Mae gan Gymry sy'n mudo i wledydd cartref eraill y DU gyfraddau TEA uwch (9% ar gyfartaledd) na Chymry sy'n byw yng Nghymru (4.3%).**

- **Sefydlogodd hyder entrepreneuraidd yn 2010 a chododd mewn rhai agweddau. Mae cyfran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n dweud fod cyfleoedd da i ddechrau busnesau newydd yn eu hardaloedd lleol yn y 6 mis nesaf yn aros yr un fath yn 2010 ag yn 2009 wedi'r cwymp pendant rhwng 2007 a 2008.**

- **Mae'r cyfraddau disgwyl dechrau busnes newydd yng Nghymru yn aros yr un fath ag yr adroddwyd amdanynt 12 mis yn ôl – mae bellach yn 5.8%**

- **Roedd cyfran uwch o berchnogion busnes yng Nghymru yn 2010 yn fwy positif am eu gobeithion am dwf nag yr oeddent 12 mis yn ôl.**

# Cefndir

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-Eang yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol. I ddechrau, mae ffyniant economi yn dibynnu'n uchel ar sector entrepreneuriaeth fywiog. Yn ail, mae gallu entrepreneuraidd economi yn dibynnu ar unigolion o bob carfan o gymdeithas sydd â'r gallu a'r cymhelliant i ddechrau busnesau, ac mae hynny'n gofyn am agweddau cadarnhaol gan gymdeithas tuag at entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf uchel yn gwneud cyfraniad allweddol at gyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cymdeithasol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuriaeth arloesol a thraws-ffiniol.

Llywodraeth Cymru (LlC) a noddodd ran Cymru ym mhrosiect ymchwil GEM y DU. Mae ysgogi entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r wlad ac mae LlC wedi cymryd yr awenau i sicrhau ei fod yn rhan annatod o'i gweithgareddau craidd. Dyma'r wythfed flwyddyn i LlC gymryd rhan yn y GEM ac rydym yn dechrau gweld canlyniadau'r ymrwymiad hwnnw gan fod gennym bellach un o'r cronfeydd data mwyaf ar fwriadau entrepreneuraidd unrhyw ran o'r DU dros y cyfnod 2002-2010. Lle mae'n briodol, rydym yn tynnu ar y set ddata gyfan hon o ~190,000 o ymatebwyr i'r DU (~35,000 yng Nghymru) i roi dadansoddiad o'r tueddiadau. Mae cymryd rhan ym mhrosiect GEM yn darparu tystiolaeth werthfawr ynghylch lefel gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru.

Defnyddir dadansoddiad data'r GEM fel meincnodau allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maent hefyd yn golygu y gellir cymharu â rhanbarthau eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn y GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw'r GEM i gynnig gwybodaeth am y patrwm entrepreneuraidd mewn gwahanol wledydd yn golygu fod ei ddata yn adnodd angenrheidiol i unrhyw un sydd am astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig bod gennym well dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi entrepreneuriaeth cyfnod cynnar, oherwydd mae tystiolaeth yn awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau entrepreneuriaeth uwch a llewyrch economaidd drwyddi draw.

# Sut mae'r GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepeneuraidd

Mae'r GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (a adnabyddir fel TEA) drwy ddefnyddio'r dull canlynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o sampl ar hap o'r boblogaeth oedolion rhwng mis Mai a mis Medi.
- Mynegai TEA yw cyfanswm y rheiny a atebodd a ddosberthir yn egin entrepreneuriaid[1] ac entrepreneuriaid newydd pendant[2].
- Yn ogystal, mae'r arolwg GEM yn gofyn i bawb am eu hagweddau tuag at weithgarwch entrepreneuraidd.

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur pob gweithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw'n seiliedig ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau a sefydlant. Felly mae'n fesur unigryw y gellir gwneud cymariaethau rhyngwladol ohono, o dueddiad diwylliannol gwlad, neu ranbarth i fod yn entrepreneuraidd.

Un ffordd o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw holi a yw'r gweithgarwch yn seiliedig ar anghenraid (h.y. nid oes dewis gwell o ran gwaith) neu gyfle (lle mae entrepreneuriaid yn manteisio ar y potensial o greu marchnad newydd).

Caiff y fethodoleg, y meintiau sampl a'r systemau pwysoli a ddefnyddiwyd i arolwg poblogaeth oedolion GEM DU 2010 eu hegluro'n fanylach yn adroddiad y DU (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10% o ymatebwyr ym mhob Swyddfa Ranbarthol y Llywodraeth ar hap o aelwydydd oedd â ffonau symudol ond ddim ffonau llinell dir sefydlog. Gall y newid hwn o samplo llinellau tir yn unig fod yn gyfrifol am DU rywfaint o'r cynnydd ymddangosiadol yn yr amcangyfrifon pwynt i nifer o fesurau GEM yn 2010[5]. Yn yr adroddiad hwn, gwneir cymariaethau â gwledydd eraill y DU yn 2010 drwy ddefnyddio ymatebwyr llinell sefydlog yn unig "tebyg at ei debyg" yn ogystal â'r sampl llawn.

---

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol pan fo'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i ddechrau busnes newydd, busnes y mae ef/hi o leiaf yn rhannol berchen arno.

[2] Yr ail gyfnod yw'r 42 mis cyntaf ar ôl i'r fenter newydd ddechrau talu cyflogau. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn rhannol berchen ac yn rheoli busnes newydd sydd rhwng 4 a 42 mis oed ac nad ydynt wdi talu cyflogau am fwy na'r cyfnod hwn yn entrpreneuriaid pendant newydd.


[5] Nid yw hyn yn wir am Gymru o safbwynt y brif gyfradd TEA gan i'r ddau gael ei talgrynnu i 5.8%.

Mae'r adroddiad canlynol yn grynodeb o'r prif ganlyniadau, a'r themâu allweddol sy'n deillio o arolwg GEM yn 2010 a dadansoddiad o'r naw mlynedd o ddata GEM (2002-10).

# Cyfanswm Gweithgarwch Cyfnod Cynnar (Mynegai TEA)


Cyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar yng Nghymru yn 2010 (aelwydydd llinell dir a symudol) oedd 5.8 y cant o'i gymharu â 6.5 y cant yn y DU drwyddi draw a 6.7 y cant yn rhanbarthau Lloegr. Nid oes fawr o wahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yn 2010 (Ffigwr 1). Ymhellach, mae'r gyfradd TEA yn yr Alban gryn dipyn yn is na chyfradd Lloegr, sef 6.7% (ond ddim na Chymru a Gogledd Iwerddon).

Yn gyffredinol, mae cyfradd TEA o 5.8 y cant yng Nghymru yn cyfateb i tua un o bob un deg saith o oedolion neu ychydig dros 110,000 o unigolyn wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rheiny yn y cyfnodau cynnar iawn o ddechrau busnes (egin entrepreneuriaid 3.0%) a'r rheiny oedd â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed (2.7%).




**Ffigwr 1: Cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Ngwledydd Cartref y DU 2010** (Ffynhonnell: GEM APS)

O edrych ar y cyfnod 2002-2010[7] gwelwn fod cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru, wrth i'r economi barhau i ddioddef o'r dirwasgiad, ychydig yn uwch na'r hyn ydoedd yn 2002 (Ffigwr 2a). Mae lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru wedi glynu'n agos at dueddiad y DU yn y blynyddoedd diwethaf ac o ran ymatebion llinell dir yn unig mae fymryn yn uwch yn 2010 – 5.8 y cant o'i gymharu â 5.6 y cant yn y DU ond nid yw'r bwlch hwn yn ystadegol arwyddocaol.





**Ffigwr 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-10).** (Ffynhonnell: GEM APS)

Dengys Ffigwr 2b fod lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn y ddau ranbarth NUTS 2 yng Nghymru (Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) o'r un fath ag yng Nghymru gyfan – 5.8%[9]. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gyfyngu i ymatebwyr llinell dir yn unig er mwyn sicrhau cymhariaeth tebyg at ei debyg dros amser. Mae'n ymddangos, felly, fod y cynnydd yn y gyfradd TEA a welwyd yn Nwyrain Cymru yn 2009 yn binacl gweithgarwch entrepreneuraidd diweddar ac mae wedi dychwelyd i'w lefelau blaenorol. Mewn cyferbyniad â hyn, mae'r graff yn dangos cynnydd sefydlog mewn gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ers 2004 ac mae bellach ychydig yn uwch na'i lefel o 5.3 y cant cyn y dirwasgiad. Nid yw'r cynnydd yn ystadegol arwyddocaol.

[7] H.y., defnyddio'r ymatebwyr llinell dir yn unig yn 2010 i'r dadansoddiad tueddiad hwn. Y gyfradd TEA i Gymru gyda'r sampl cyfyngedig hwn yw 5.83% o'i gymharu â 5.77% i aelwydydd llinell dir a symudol yn unig.


[9] Y gyfradd TEA i'r sampl cyfan yn rhanbarthau NUTS 2 (h.y., aelwydydd llinell dir a symudol yn unig) oedd 5.9% a 5.7% i Ddwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Erys y gyfradd TEA i Gymru heb newid ar 5.8%.




**Ffigwr 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU (2002-10).** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2010, wrth i'r cwymp economaidd barhau yng Nghymru ac wrth i lefel gweithgarwch entrepreneuraidd (egin a busnesau newydd gael eu cynnal, roedd lefel entrepreneuriaeth 'anghenraid' tra'n debyg ag yn 2009. Mae hon bellach yn 18.6 y cant a oedd ychydig yn is na'r hyn a adroddwyd yn 2009. [11]Gan Gymru mae'r lefel uchaf o entrepreneuriaeth anghenraid yn 2010 o bob un o'r gwledydd cartref - caiff ychydig o dan 1 o bob 5 menter newydd eu creu o anghenraid (Ffigwr 3). Yn yr Alban mae'r lefel isaf ond yma hefyd gwelwyd lefel gryn dipyn yn is o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn 2010.

[11] Hynny yw, 18.3% o'i gymharu â 19.7% mewn cymhariaeth tebyg at ei debyg o ymatebwyr llinell dir yn unig.




**Ffigwr 3: Entrepreneuriaeth Cyfle ac Anghenraid yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2010.** (Ffynhonnell: GEM APS 2010)

# Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?


**Rhyw:** Tra bo gweithgaredd entrepreneuraidd cyfnod cynnar gan fenywod yn y DU yn 4 y cant, [13]y ffigwr cymharol i Gymru oedd 3.6 y cant nad oedd yn ystadegol wahanol i'r hyn a welwyd yn y DU. Dengys Ffigwr 4 bod mân amrywiadau ar draws y pedair gwlad gartref, er nad yw'r un o'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Fodd bynnag, cymhareb y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar rhwng menywod a dynion sy'n amrywio'n bendant ar draws y pedair gwlad. Mae'r gymhareb yng Nghymru (45%; neu 43% os ydym yn canolbwyntio ar ymatebwyr llinell dir yn unig er mwyn gallu cymharu â'r blynyddoedd cynt) bron yr union yr un fath â chyfartaledd y DU a Lloegr. Mae hwn yn gwymp sylweddol ers 2009 pan oedd yn 58 y cant yn ôl yr hyn a adroddwyd.

Fel yn y blynyddoedd cynt, yng Ngogledd Iwerddon y mae'r gymhareb isaf o'r gyfradd TEA menwyod i ddynion (34%) a oedd 10 pwynt canran yn is nag yn y DU drwyddi draw. Mae

[13] Noder: mae hyn ar gyfer y sampl cyfunol o aelwydydd symudol a llinell dir yn unig. Os ydym yn cyfyngu'r sampl i llinell dir yn unig y gyfradd TEA fenwyaidd yn y DU oedd 3.4% a'r gyfradd TEA wrywaidd yn y DU oedd 7.8%. Y ffigyrau cymharol i Gymru oedd 3.5% ac 8.2%.


merched yng Ngogledd Iwerddon yn llawer llai tebygol na dynion o fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd entrepreneuraidd cyfnod cynnar.




**Ffigwr 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2010.** (Ffynhonnell: GEM APS 2010)

Yr Alban sy'n cofnodi'r gymhareb TEA merched i ddynion uchaf ar 65 y cant ond mae hyn yn ganlyniad i gyfradd TEA is mewn dynion o'i gymharu â'r gwledydd cartref eraill. Roedd cyfraddau TEA gwrwyaidd yn yr Alban (5.1%) gryn dipyn yn is na rhai Lloegr (9.4%) ond ddim o'u cymharu â Chymru (8%) a Gogledd Iwerddon (9.6%).

Gwelwn o Ffigwr 5 fod y gostyngiad yn y gymhareb egin berchnogion a pherchnogion newydd busnes merched i ddynion yn ganlyniad i gwymp mewn cyfraddau TEA benwyaidd yn 2010. Mae hyn wedi gwrthdroi'r tuedd am i fyny a welsom wrth i'r economi symud drwy'r dirwasgiad.




**Ffigwr 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar Benywaidd yng Nghymru a'r DU, 2002-2010.** (Ffynhonnell: GEM APS)


**Oed:** Unigolion rhwng 25-34 oed sy'n dangos y gyfradd uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn y DU ac mae hyn yn wir ym mhob un o'r gwledydd cartref, er ar wahanol lefelau, ar wahân i'r Alban. Y gyfradd TEA i'r grŵp oed hwn ar gyfartaledd yn y DU yw 10.3 y cant ond yn yr Alban mae bron bedair gwaith yn is ar 2.7 y cant, gwahaniaeth sy'n ystadegol arwyddocaol. Yng Nghymru y gyfradd TEA i'r grŵp oed hwn yw 7.7 y cant yn 2010. Byddwn yn edrych yn fanylach ar y tueddiadau mewn entrepreneuriaeth ieuenctid yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Yn y DU, mae 3.3 y cant o oedolion ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar ac er bod Cymru a'r Alban yn cofnodi cyfraddau uwch (6.7%[15] a 6.1%) nid oes gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar draws y gwledydd cartref. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o dros 2 bwynt canran ers 2009 i'r grŵp oed hwn ond nid yw'n ystadegol arwyddocaol.

Mae gweithgarwch egin a busnes newydd (cyfradd TEA) yn gostwng gydag oed ac i'r rheiny rhwng 55-64 oed cyfartaledd y DU yw 3.7 y cant. Ceir ychydig o amrywiad ar draws y gwledydd cartref gyda'r gyfradd uchaf yng Ngogledd Iwerddon (5.3%) a'r isaf yn yr Alban (2.7%) ond nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol.

[15] Roedd y gyfradd TEA llinell dir yn unig i'r grŵp oed hwn hefyd yn 6.7% yn 2010.

Ar ochr arall yr ystod oed nid oedd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfraddau TEA rhwng Cymru a'r DU i'r unigolion hynny rhwng 55 a 64 oed: 3.9 a 3.7 y cant. Cododd y gyfradd TEA i unigolion hŷn yng Nghymru ychydig dros un pwynt canran ers 2009 (o 2.8% i 4.0% ar gymhariaeth debyg at ei debyg gydag ymatebwyr llinell dir yn unig).





**Ffigwr 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU, 2010.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2010)

**Addysg:** Cyfartaledd lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar i raddedigion yn y DU yw 7.7 y cant. Y ffigwr cymharol i raddedigion sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd yw 6.2 y cant ac nid yw hwn yn ystadegol wahanol i lefel y DU (Ffigwr 7). Daw Cymru uwchben yr Alban ac o dan Loegr a Gogledd Iwerddon o ran cyfradd TEA graddedigion ond nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Sut mae cyfraddau 2010 yn cymharu â'r flwyddyn flaenorol? Eto mae'n rhaid i ni gymharu tebyg at ei debyg a defnyddio ymatebwyr llinell dir yn unig. O ddefnyddio'r sampl cyfyngedig hwn y gyfradd TEA mewn graddedigion yng Nghymru yn 2010 yw 5.2 y cant o'i gymharu â 5.8 y cant yn y DU drwyddi draw. Golyga hyn y bu gostyngiad yng nghyfraddau

TEA graddedigion yng Nghymru a'r DU ers 2009 (er ddim yn sylweddol): y ffigyrau cymharol oedd 8.5 a 7.7 y cant.




**Ffigwr 7: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU fesul Statws Graddedig, 2010.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2010)

**Symudedd:** Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad y cyfraddau TEA ym mhoblogaeth y DU fesul gwlad enedigol a'r wlad breswyl bresennol. Gwelir patrwm tebyg ym mhob gwlad: y rheiny a anwyd ac sy'n byw yn yr un wlad (y celloedd a liwiwyd yn Nhabl 1) sydd â'r cyfraddau TEA isaf yn eu rhes (gwlad breswyl) neu golofn (gwlad enedigol). Mae gan y Cymry sy'n mudo i wledydd cartref eraill y DU gyfraddau TEA uwch (9% ar gyfartaledd) na'r Cymry sy'n byw yng Nghymru (4.3%). Gwelir yr un patrwm i'r Saeson, yr Albanwyr a'r Gwyddelod o Ogledd Iwerddon, er ei bod yn nodedig mai'r Albanwyr a anwyd ac sy'n byw yn yr Alban sydd â'r gyfradd TEA isaf o unrhyw grŵp yn y tabl.

| **Ganwyd yn** | **Lloegr** | **Cymru** | **Yr Alban** | **Gogledd Iwerddon** | **Y Tu Allan i'r DU** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Byw yn** | | | | | |
| **Lloegr** | 5.6 | 7.6 | 5.8 | 7.2 | 7.8 |
| **Cymru** | 7.6 | 4.3 | 9.2 | 12.4 | 7.4 |
| **Yr Alban** | 8.0 | 11.5 | 3.9 | 6.1 | 8.9 |
| **Gog Iwer** | 5.9 | n.a. | 6.2 | 4.7 | 5.0 |


**Tabl 1: Cyfraddau TEA fesul Gwlad Enedigol a Gwlad Breswyl** (Ffynhonnell: Data Cyfunol GEM APS, 2002-10)

# Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae'r GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau ychwanegol sy'n cynnig syniad o'r potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod rhywun a ddechreuodd fusnes yn y 2 flynedd ddiwethaf, canfyddiadau pobl am gyfleoedd da i ddechrau busnes, hyder eu bod yn meddu ar y sgiliau perthnasol i ddechrau busnes a phwysigrwydd ofn methiant fel rhywbeth sy'n atal pobl rhag dechrau busnes.


Mae'n well trin data ychwanegol y GEM ar lefel grŵp yn hytrach nag unigolyn, oherwydd mae'n bosibl y gall unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid deimlo rheidrwydd i roi atebion cadarnhaol yn yr Arolwg Poblogaeth Oedolion (APS). Yma, fel yn y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym yn adrodd data agweddol dim ond i'r rheiny nad ydynt yn entrepreneuriaid yn barod.

Yng Nghymru, dywed un o bob pedwar (26.0%) eu bod yn adnabod entrepreneur o'i gymharu ag ychydig llai na thraean (31.1%) yn y DU drwyddi draw (Ffigwr 8). Yng Nghymru, cred dwy ran o bump (44.5%) o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid eu bod yn meddu ar y sgiliau i ddechrau busnes - eto yn debyg i gyfartaledd y DU.




**Ffigwr 8: Agweddau a Chanfyddiadau am Entrepreneuriaeth yng Nghymru a'r DU (2010).** (Ffynhonnell: GEM APS, 2010)


Mae cyfran y boblogaeth sy'n dweud y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes fymryn yn uwch yng Nghymru (41.4%) nag yn y DU drwyddi draw - ychydig dros draean (36%). Nid yw'r gyfran hon wedi newid rhyw lawer drwy'r dirwasgiad economaidd a ddim ers 2009 hyd yn oed pe baem yn tynnu'r aelwydydd symudol yn unig o'r sampl. Nid yw'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn yr ofn methu yn ystadegol arwyddocaol, ond mae ofn methu yng Nghymru (fel yn yr Alban) wedi codi'n sylweddol ers ei fan isaf yn 2007, yn wahanol i'r DU. Dengys Ffigwr 9 dueddiad cyffredin sef ofn methu yn codi yn y blynyddoedd diwethaf yn y gwledydd cartref ymylol ond ddim yn Lloegr.




**Ffigwr 9: Ofn Methu ymhlith y rheiny sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd Cartref y DU, 2002-10.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae'r canfyddiad am gyfleoedd dechrau busnes yng Nghymru ychydig yn is na chyfartaledd y DU (21.8% a 26.8%) ac yn dal gryn dipyn yn is na'r lefel a adroddwyd gan ymatebwyr yng Nghymru yn 2007 (h.y., 30%).


Efallai bod hyder wedi sefydlogi ar tua phumed ran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid o'i gymharu â thua traean cyn y dirwasgiad (Ffigwr 10). Yn 2010 gwelwyd codiad bychan yn y canfyddiad am gyfleoedd dechrau busnes yng Nghymru a oedd i'w weld hefyd yn y DU drwyddi draw.




**Ffigwr 10: Canfyddiadau am Gyfleoedd Dechrau Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-10.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Gan edrych i'r dyfodol, cododd cyfran yr oedolion yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf rhyw ychydig yn 2010: 5.8 y cant. Roedd hyn yn adlewyrchu tueddiad y DU a welodd godiad i 7.3 y cant. Nid yw'r codiadau hyn yn 2009 yn arwyddocaol. Fel ag y nodwyd mewn blynyddoedd cynt roedd gostyngiad cyson wedi bod yn y bwriad i ddechrau busnes yn y dyfodol yng Nghymru ers 2005 - cyn dechrau'r dirywiad economaidd diweddar. Mae Ffigwr 11 yn dangos y tueddiad hyd at 2010 drwy gynnwys ymatebwyr llinell dir yn unig yn y dadansoddiad. Gwelwn er bod cynnydd bach yn y DU, nad yw bwriad ymatebwyr Cymru i ddechrau busnes yn y dyfodol wedi newid ers 2009[17].


[17] Mae hyn hefyd yn dangos gwerth cyflwyno aelwydydd ffôn symudol yn unig i'r sampl. Maent yn hybu'r gyfradd dechrau busnes yn y dyfodol ychydig o 5.0% i 5.8%.




**Ffigwr 11: Disgwyliadau Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU 2002-10.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae dynion yn fwy tebygol na merched i adrodd eu bod yn bwriadu dechrau busnes yn y tair blynedd nesaf yng Nghymru (Ffigwr 12). Yn 2010, mae 3.5 y cant o fenywod yng Nghymru yn disgwyl dechrau busnes yn y 3 blynedd nesaf o'i gymharu ag 8.1 y cant o ddynion. Y gymhareb merched i ddynion o ran bwriadau dechrau busnes yn y dyfodol yng Nghymru yw 43 y cant ac mae bron yn union yr un fath â'r hyn a welwyd yn y gyfradd TEA yn 2010.


Gan Gymru y mae'r canran isaf o ddynion yn bwriadu dechrau busnes yn y dyfodol nag unhyw un o'r gwledydd cartref yn 2010 er bod cyfradd y merched yn debyg i'r Alban a Gogledd Iwerddon ond yn is nag yn Lloegr. Mae'r gymhareb merched i ddynion tra'n debyg yn y tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig. Yn y DU adroddodd 9.8 y cant o ddynion a 4.8 y cant o ferched eu bod yn disgwyl dechrau busnes yn y tair blynedd nesaf.




**Ffigwr 12: Disgwyliadau Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Ngwledydd Cartref y DU fesul Rhyw, 2010.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2010)

# Pobl Ifanc a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Dengys Ffigwr 13 gyfran yr entrepreneuriaid cyfnod cynnar yn y boblogaeth oedolion ifanc fesul gwlad gartref yn flynyddol o 2002 i 2010. Fel ag y trafodwyd ynghynt o 2002 i 2009, dim ond aelwydydd â llinell dir a holwyd. Yn 2010, roedd 10% o'r sampl yn cynnwys aelwydydd symudol yn unig. Gwnaeth hyn wahaniaeth sylweddol i'r gyfradd TEA i bobl ifanc yng Nghymru – yn ei chodi o 6.6 y cant i 7.2 y cant. Yn Ffigwr 12, dangosir y cyfraddau TEA i'r sampl cyfan ar y dde; mae cyfraddau'r sampl aelwydydd llinell dir yn unig yn haws eu cymharu â'r blynyddoedd cynt.




**Ffigwr 13: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU i rai rhwng 18 a 29 oed, 2002-10.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Dwy nodwedd ddiddorol o Ffigwr 13 yw bod y gyfradd Gymreig wedi dyblu o 2002 i 2010 a bod gostyngiad yng nghyfradd TEA yr Alban yn 2009. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ar waith.

Yn arolwg GEM y DU 2008[19], cytunodd bron i dri allan o bump (58%) y rhai 18 i 29 mlwydd oed yng Nghymru eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn dechrau busnes a ddarparwyd gan goleg neu brifysgol nad oedd yn rhan o'u haddysg ffurfiol, o'i gymharu â dim ond 35 y cant yn yr Alban, 39 y cant yn Lloegr a 29 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y gyfran oedd wedi derbyn hyfforddiant mewn dechrau busnes fel rhan o addysg ffurfiol ôl-ysgol ar draws y gwledydd cartref.

Yn 2010 roedd cwestiynau penodol i Lywodraeth Cymru ar ddwy agwedd o addysg fenter. I ddechrau, gofynnom am ymwybyddiaeth o Adnoddau Dynamo (cynllun sydd ar gael i ysgolion a cholegau i hybu menter) ymhlith y boblogaeth o dan 30 oed yng Nghymru. Yn ail, gofynnwyd cwestiwn mwy manwl am a oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw

[19] Dyma'r flwyddyn olaf i'r arolwg gynnwys set lawn o gwestiynau ar addysg a hyfforddiant menter.

weithgareddau yn yr ysgol, coleg neu brifysgol a oedd wedi gwneud iddynt feddwl am ddechrau busnes neu fod yn feistr arnyn nhw'u hunain.

Er mai dim ond 15.8 y cant o'r grŵp oed hwn oedd wedi clywed am Adnoddau Dynamo, adroddodd bron i hanner (48%) eu bod wedi cymryd rhan mewn addysg fenter yn yr ysgol, coleg neu brifysgol. Nid oes ystadegau cyfatebol ar gael am y gwledydd cartref eraill ond cânt eu casglu fel rhan o arolwg GEM y DU 2011. Ymhellach, pan holwyd am gymryd rhan yn yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-Eang atebodd un o bob pump (20%) o'r rhai 18-29 oed yng Nghymru eu bod wedi gwneud hynny o'i gymharu â 15 y cant yn y DU drwyddi draw a dim ond 8.2 y cant yn yr Alban. Mae hyn hefyd yn rhan o'r eglurhad am y lefel gynyddol o weithgarwch entrepreneuraidd ymhlith pobl ifanc yn yr 8 mlynedd ddiwethaf yng Nghymru.

# Effaith y Dirwasgiad ar Weithgarwch Entrepreneuraidd

Unwaith eto yn 2010 roedd cwestiynau yn arolwg y GEM am agweddau entrepreneuriaid tuag at ddechrau busnes a thwf yn y dirwasgiad. Ceir arwyddion amlwg o'r atebion i'r cwestiynau hyn fod agweddau entrepreneuriaid yn y DU yn gyffredinol yn symud mewn cyfeiriad ychydig mwy positif wrth i'r economi symud allan o'r dirwasgiad. O gymharu aelwydydd tebyg at eu tebyg (h.y. y rheiny â llinellau tir), roedd cynnydd yn y gyfran o entrepreneuriaid cyfnod cynnar (perchnogion busnesau egin a newydd) yn y sampl a oedd yn fwy positif am eu gobeithion am dwf nag yr oeddent 12 mis ynghynt, o 20.5 y cant yn 2009 i 25.0 y cant yn 2010. Mae barn perchnogion busnesau sefydledig yn y DU hefyd wedi mynd yn fwy positif ers 2009. Roedd ychydig dros un mewn pump (21.7%) o'r rheolwyr-berchnogon hyn yn fwy positif am eu gobeithion am dwf yn 2010, i fyny o 15.9 y cant yn 2009.

Yn y DU yn 2010, roedd un o bob pump (19.4%) o entrepreneuriaid cyfnod cynnar ac ychydig dros un o bob 10 (11.7%) o reolwyr-perchnogion busnes sefydledig yn credu bod mwy o gyfleoedd i'w busnes o ganlyniad i'r dirywiad byd-eang. Roedd hyn yn eithaf tebyg i'r canlyniadau flwyddyn yn ôl. Roedd cyfran ychydig uwch o entrepreneuriaid cyfnod cynnar yn y DU yn 2010 - bron i un o bob saith (14.0%) - yn credu fod dechrau busnes yn llai anodd na flwyddyn yn ôl gyda chyfran uwch yn credu fod yr anawsterau tua'r un fath.

Adroddodd ychydig dros hanner perchnogion busnes egin a newydd ei bod yn fwy anodd dechrau busnes yn 2010 o'i gymharu â dwy ran o dair yn 2009.

Dengys dadansoddiad o'r ymatebion gan entrepreneuriaid yng Nghymru fod bron i draean (31.5%) yr entrepreneuriaid cyfnod cynnar (perchnogion busnes egin a newydd) yng Nghymru yn 2010 yn fwy positif am eu gobeithion am dwf nag yr oeddent cyn y dirywiad byd-eang - i fyny o 24.9 y cant yn 2009. Roeddent hefyd yn fwy positif na'u cymheiriaid yn y DU drwyddi draw. Mae perchnogion busnes sefydledig yng Nghymru yn llai positif na'r rheiny sydd newydd ddechrau busnes ond eto roedd tua un o bob chwech (17.3% - i fyny o 13.7% yn 2009) o'r rheolwyr-berchnogion hynny yn fwy positif am eu gobeithion am dwf.

Yng Nghymru, roedd o dan un o bob pump (16.7%) o entrepreneuriaid cyfnod cynnar a 7.6 y cant o reolwyr-perchnogion busnes sefydledig yn credu fod mwy o gyfleoedd i'w busnes o ganlyniad i'r dirywiad byd-eang. Reodd hyn ychydig yn is nag yn y DU yn gyffredinol ond yn eithaf tebyg i'r hyn a adroddwyd yn 2009 (17.4% ac 8.4%).

Roedd tua un o bob 10 (11.4%) o reolwyr-perchnogion busnes sefydledig yng Nghymru yn credu fod dechrau busnes yn llai anodd na flwyddyn yn ôl – ddwywaith y gyfran a ddywedodd hyn yn 2009 (4%). Roedd llai nag un o bob deg (8.8%) o entrepreneuriaid cyfnod cynnar yn y wlad yn credu fod dechrau busnes yn llai anodd na flwyddyn yn ôl (10.5%) yn 2009. Mae entrepreneuriaid yng Nghymru ychydig yn llai ffyddiog na'u cymheiriaid mewn llefydd eraill yn y DU.

Yn amlwg, mae mwyafrif helaeth entrepreneuriaid Cymru'n dal i ddweud ei bod yn fwy anodd dechrau busnes yn 2010 nag yn 2008 ond i garfan fechan o berchnogion busnes mae yna gyfleoedd am weithredu entrepreneuraidd.

# Sylwadau Cloi

Yn sicr mae gan Gymru broffil entrepreneuraidd ac ymddygiad cysylltiedig sy'n dangos nifer o agweddau cadarnhaol a fydd yn helpu adferiad economaidd. Gellir crynhoi'r dystiolaeth o arolwg 2010 GEM (a gynhaliwyd yn y cyfnod Mai-Medi) fel a ganlyn:

- Mae lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar tra'n debyg yn 2010 i'r hyn ydoedd cyn y dirywiad economaidd.

- Gwelwyd cynnydd pendant yng ngweithgarwch entrepreneuraidd pobl ifanc (o dan 30 oed) yn y blynyddoedd diwethaf ac mae yna rywfaint o dystiolaeth o arolwg y GEM sy'n awgrymu y gall hyn fod yn gysylltiedig â pholisi addysg menter sy'n weithredol yn ysgolion, colegau a phrifysgolion Cymru yn ogystal â chymryd rhan mewn cynlluniau cenedlaethol megis yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-Eang.

- Mae'r gostyngiad yn y canfyddiadau bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yng Nghymru wedi stopio yn dilyn y cwymp amlwg rhwng 2007 a 2008.

- Mae'n bosibl fod hyder yn dychwelyd a chaiff hyn ei atgyfnerthu gan y ffaith fod cyfran uwch o berchnogion busnes yng Nghymru yn 2010 yn fwy positif am eu gobeithion am dwf nag yr oeddent 12 mis yn ôl.

# Ymwadiad

Seiliwyd yr adroddiad hwn ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm y GEM a thîm y GEM yn y DU; cyfrifoldeb yr awduron yn unig yw'r dadansoddiad a'r dehongliad o'r data.

**Am ragor o wybodaeth am brosiect GEM y DU, cysylltwch â:**

Professor Mark Hart
Economics & Strategy Group
Aston Business School, Aston University
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
Ebost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School

Dr Jonathan Levie
Hunter Centre for Entrepreneurship,
University of Strathclyde,
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,
Glasgow, G1 1XH
Ebost: j.levie@strath.ac.uk

hunter centre for entrepreneurship @ strathclyde
University of Strathclyde Business School